Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Ceredigion
Public Services Board

Caru·Love Ceredigion

**Cyfarfod 43**
**2 Mehefin 2025, 14:00-16:10**

**Yn rhithiol drwy Teams**
**COFNODION**

| **Yn bresennol:** | |
|---|---|
| Hazel Lloyd Lubran (HLL) | Cadeirydd, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO) |
| Gavin Bown (GB) | Is-gadeirydd, Cyfoeth Naturiol Cymru |
| George Holloway (GH) | Un Llais Cymru |
| Trina Nealon (TN) | Tîm Iechyd y Cyhoedd Hywel Dda |
| Yr Uwcharolygydd Steve Davies (SD) | Heddlu Dyfed-Powys |
| Wyn Morris (WM) | Yr Adran Gwaith a Phensiynau |
| Claire Bryant (CB) | Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu |
| Steve Thomas (ST) | Prifysgol Aberystwyth |
| Iwan Cray (IC) | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Alun Williams (AW) | Cyngor Sir Ceredigion |
| **Hefyd yn bresennol:** | |
| Greg Jones (GrJ) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Carys Lloyd-Jones (CLJ) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Cathryn Morgan (CM) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Gethin Jones (GJ) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Nic Pryor (NP) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Melanie Walters (MW) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Y Cynghorydd Wyn Evans (WE) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Elinor Ashworth-Chandler (EAC) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Mererid Lewis (ML) | Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru |
| Caitlin Theodorou (CT) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Amy Richmond-Jones (ARJ) | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Amie Andrews (AA) | Prifysgol Aberystwyth |
| **Tîm Cymorth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:** | |
| Diana Davies (DD) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Tim Bray (TB) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Steffan Gruffudd (SG) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Lynne Walters (LW) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Gaenor Parry (GP) | Cyngor Sir Ceredigion (Cofnodion) |
| Rhidian Jones (RhJ) | Cyfieithydd |
| Carol Thomas (CT) | Cyfieithydd |
| **Aelodau'r cyhoedd a oedd yn bresennol:** | |

| |
|---|
| Neb yn bresennol |

| 43.1 | Ymddiheuriadau, cyflwyniadau a datgelu buddiannau |
|---|---|

Croesawodd y Cadeirydd Hazel Lloyd Lubran (HLL) bawb i'r cyfarfod. Nid oedd yr un aelod o'r cyhoedd yn bresennol. Nodwyd nad oedd neb o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn bresennol ar ddechrau'r cyfarfod. Cadarnhaodd Diana Davies (DD) y gallai'r cyfarfod fynd rhagddo ac y gellid trafod y materion dan sylw ond byddai angen rhannu unrhyw benderfyniadau â'n cydweithwyr yn y Bwrdd Iechyd cyn mabwysiadu'r penderfyniadau hyn yn ffurfiol. Rhaid i'r holl bartneriaid statudol gadarnhau pob penderfyniad.

**Nodwyd yr ymddiheuriadau canlynol:**
Pat Smith – Yr Adran Gwaith a Phensiynau
Elen James – Cyngor Sir Ceredigion
Y Cynghorydd Matthew Vaux – Cyngor Sir Ceredigion
Geinor Jones – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Beth Cossins – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Y Cynghorydd Catrin Davies – Cyngor Sir Ceredigion
Barry Rees – Cyngor Sir Ceredigion
Linda Jones – Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
Victoria Jones – Llywodraeth Cymru
Chesca Ross – Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO)
Y Cynghorydd Bryan Davies – Cyngor Sir Ceredigion
Andrew Cornish – Coleg Sir Gâr/Ceredigion
Christine Harley – Y Gwasanaeth Prawf
Megan Harris – Iechyd Cyhoeddus Cymru

Cadarnhaodd HLL fod nifer o wynebau newydd yn bresennol yn y cyfarfod i roi cyflwyniadau ond nad oedd yna gynrychiolwyr newydd o blith y sefydliadau sy'n bartneriaid.

| 43.2 | Cofnodion cyfarfod blaenorol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion – 3 Mawrth 2025 |
|---|---|

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 03.03.2025 yn gywir.

| 43.3 | Cwblhau camau gweithredu a materion sy'n codi o'r cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 3 Mawrth 2025 |
|---|---|

Ystyriwyd y camau gweithredu a gytunwyd iddynt yn y cyfarfod blaenorol ar 03.03.25:

| Cofnod o Gamau Gweithredu – 3 Mawrth 2025 | | |
|---|---|---|
| **1.** | Byddai Tîm Cymorth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn paratoi Adroddiad Blynyddol 2024-2025 a byddai'r adroddiad yn cael ei ystyried a'i drafod yn y cyfarfod ym mis Mehefin.<br>**YN PARHAU** – Yn ystod y cyfarfod, rhannwyd fersiwn ddrafft o'r Adroddiad Blynyddol ar y sgrin a byddai'n cael ei rhannu â phawb ar e-bost fel y gellid ei chymeradwyo. Gweler eitem 43.4. | Y Tîm Partneriaethau |
| **2.** | Byddai Tîm Cymorth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn lanlwytho calendr o'r digwyddiadau sydd i'w cynnal yn fuan i wefan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus<br>**WEDI'I GWBLHAU** | Y Tîm Partneriaethau |
| **3.** | Byddai adroddiadau am Weithdai'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a chanfyddiadau'r gweithdai hynny yn cael eu rhannu â'r partneriaid ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi – y tîm cymorth fyddai'n eu | Y Tîm Partneriaethau |

| | | |
|---|---|---|
| | dosbarthu.<br>**YN PARHAU** – byddai cyfarfod yn cael ei gynnal ar 3 Mehefin 2025. Tynnodd Hazel Lloyd Lubran (HLL) sylw at y meysydd yr oedd y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn canolbwyntio arnynt, gan gynnwys cynlluniau a oedd yn bwriadu gwella cymunedau lleol a chefnogi twf economaidd. Roedd hyn yn cynnwys effaith bosib y gronfa ar amrywiol brosiectau a phwysigrwydd defnyddio'r gronfa yn effeithiol er budd y gymuned. Pwysleisiodd HLL fod angen i'r partneriaid gydlynu eu gwaith i sicrhau bod y prosiectau a ariennir gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn cael eu rhoi ar waith yn llwyddiannus. Yn ystod y drafodaeth a gafwyd yn dilyn hynny, soniwyd am gynllunio at y dyfodol a phwysigrwydd sicrhau bod prosiectau yn cyd-fynd ag amcanion y gronfa gan wneud y mwyaf o'r manteision uniongyrchol i gymunedau. Byddai HLL yn rhannu rhagor o wybodaeth ar ôl y cyfarfod. | |
| **4.** | Byddai Tîm Cymorth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cysylltu â chymheiriaid rhanbarthol i drafod y cynnig ynghylch Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rhanbarthol.<br>**YN PARHAU –** Cafwyd trafodaethau yn ddiweddar ynglŷn â'r posibilrwydd ynghylch uniad rhanbarthol neu'r posibilrwydd o gydweithio â Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Phowys. Roedd aelodau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys wedi nodi nad oedd ganddynt ddiddordeb mewn uno ond roeddent wedi nodi efallai y byddent yn barod i weithio gyda rhanbarth newydd, os penderfynir gwneud hyn.<br><br>Wrth ymateb i'r diweddariad hwn, dywedodd HLL fod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cytuno yn flaenorol y byddai Cylch Gorchwyl y Bwrdd yn cael ei archwilio ym mis Medi. Fodd bynnag, dylid yn awr ystyried peidio â bwrw ymlaen â'r cam gweithredu hwn am y tro er mwyn ystyried ymhellach y posibilrwydd o weithio'n rhanbarthol. Dywedodd Diana Davies (DD) mai penderfyniad i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus oedd hwn ac ychwanegodd mai megis dechrau fyddai'r trafodaethau rhanbarthol erbyn mis Medi. Cytunwyd i fwrw ymlaen â'r cam gweithredu hwn, yn unol â'r hyn a fwriadwyd, gan fynd ati i gynnwys adolygiad o'r Cylch Gorchwyl ar yr Agenda nesaf. | Y Tîm Partneriaethau |
| **5.** | Byddai Tîm Cymorth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn paratoi papur opsiynau ynghylch Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rhanbarthol a byddai'r papur yn cael ei gyflwyno gerbron y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y cyfarfod nesaf fel y gellid ei ystyried.<br>**YN PARHAU** | Y Tîm Partneriaethau |
| **6.** | Byddai Cylch Gorchwyl y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael ei adolygu cyn cyfarfod y Bwrdd ym mis Medi.<br>**YN PARHAU** | Y Tîm Partneriaethau |
| **7.** | Byddai Tîm Cymorth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn mynd ati i gynnull grŵp ffocws i ystyried ac archwilio arferion arloesol wrth bwyso a mesur y posibilrwydd o gyd-leoli a rhannu adeiladau yn | Y Tîm Partneriaethau / PAWB |

| | | |
|---|---|---|
| | Aberystwyth.<br>**YN PARHAU** – Dywedodd HLL fod CAVO wedi anfon arolwg at grwpiau'r trydydd sector yn ardal Aberystwyth i gael gwybod am y cyfleusterau sydd ar gael ac am yr anghenion yn Aberystwyth. Byddai cyfarfod y grŵp ffocws yn cael ei gynnal ar ôl derbyn yr adborth oddi wrth CAVO. | |
| **8.** | Byddai CAVO yn cysylltu â'r 3ydd sector i holi am yr anghenion a'r cynlluniau o ran swyddfeydd neu adeiladau yn Aberystwyth.<br>**YN PARHAU** – fel yr uchod | Hazel Lloyd Lubran |
| **9.** | Byddai Ceredigion Oed-gyfeillgar yn cael ei gynnwys ar agenda un o gyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol.<br>**WEDI'I GWBLHAU** | Y Tîm Partneriaethau / Melanie Walters |
| **10.** | Byddai Tim Bray (TB) yn rhannu diweddariad am Ddangosfwrdd Data Gorwel.<br>**WEDI'I GWBLHAU –** Rhoddodd Tim Bray ddiweddariad gan nodi mai dangosfwrdd data oedd Gorwel ac mai ei fwriad oedd cydgrynhoi amrywiol ffynonellau data fel y gellid sicrhau gwaith dadansoddi mwy trylwyr a phroses well o wneud penderfyniadau. Roedd y datblygwyr wedi wynebu problemau gyda dangosfwrdd data Gorwel, a daeth yn glir na fyddai'n bodloni'r anghenion a ragwelwyd oherwydd datblygiadau yn y dechnoleg. Penderfynwyd rhoi'r gorau i ddatblygu Gorwel er mwyn arbed costau a defnyddio'r cyllid at ddibenion gwahanol. Byddai'r Cydlynydd Data Rhanbarthol, a fu'n gweithio ar Gorwel, yn awr yn canolbwyntio ar ddod o hyd i ffynonellau data anodd eu canfod a nodi cyfleoedd i ymgysylltu â'r gymuned. Bwriad y newid hwn, a gytunwyd iddo, oedd cefnogi anghenion data ac asesiadau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn well yn y dyfodol. Roedd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r newid hwn. | Tim Bray |

Ymunodd Trina Nealon (TN) o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda â'r cyfarfod am tua 14:20.
**Felly, roedd gan y cyfarfod gworwm.**

| | |
|---|---|
| **43.4** | **Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-28: Adolygu'r traciwr gweithgareddau (Cyfarfod 43)** |

Cyflwynodd Tim Bray (TB) y traciwr gweithgareddau i'r Bwrdd, a oedd wedi'i ddiweddaru a'i ddosbarthu fel rhan o'r papurau cyn y cyfarfod. Roedd y traciwr gweithgareddau yn rhoi trosolwg o'r camau gweithredu a gwblhawyd ac roedd yn monitro'r cynnydd a wnaed o ran Amcanion y Cynllun Llesiant.

Rhoddodd TB ddiweddariad am fersiwn ddrafft Adroddiad Blynyddol 2024/25 a phwysleisiodd pa mor bwysig oedd adrodd yn flynyddol ar y cynnydd a wneid o ran y Cynllun Llesiant Lleol. Y bwriad yn wreiddiol oedd paratoi dogfen fer a chryno ond o ystyried holl weithgareddau'r prosiectau a'r camau gweithredu, roedd yr adroddiad yn 36 tudalen. Roedd dal angen cwblhau rhai adrannau ac roedd angen cynnwys diweddariad y Cadeirydd. Roedd yr adroddiad yn cynnwys strwythur y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, y grwpiau cyflawni a'r gweithgareddau. Roedd y diweddariadau hefyd yn rhoi sylw i bob un o'r is-grwpiau, e.e. y Grŵp Ffoaduriaid. Ymhlith y

cynlluniau mawr a oedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad oedd Gwaith Teg, Rhwydwaith Bwyd Ceredigion, Prosiect Ieuenctid Llanbedr Pont Steffan, gweithgareddau Haf o Hwyl Aberteifi, Pwysau Iach Cymru, Siarter Teithio Canolbarth a Gorllewin Cymru a Cheredigion Oed-gyfeillgar. Bu i TB gydnabod mor anodd y byddai lleihau hyd yr adroddiad am fod gwaith sylweddol wedi'i wneud gan amrywiaeth eang o bartneriaethau a grwpiau.

Ar ôl cwblhau'r adroddiad, byddai'r drafft terfynol yn cael ei rannu â'r aelodau fel y gallent roi adborth. Pwysleisiodd HLL fod yr adroddiad yn adlewyrchu'r hyn a oedd wedi'i gyflwyno a'i gyflawni drwy ein gwaith. Pe byddai'r aelodau yn cytuno, byddai modd i'r Cadeirydd roi ei sêl bendith i'r adroddiad ar ôl unrhyw adborth a ddaw i law. Wrth gloi'r drafodaeth, dywedodd TB y byddai angen i'r aelodau ddarparu adborth ar fyrder ac ychwanegodd HLL y byddent yn cymryd yn ganiataol fod aelodau unigol yn hapus i gymeradwyo'r ddogfen os na fyddent yn ymateb.

**Cam Gweithredu: Byddai'r Tîm Partneriaethau yn paratoi drafft terfynol yr Adroddiad Blynyddol a byddai'n ei rannu â'r aelodau fel y gallent roi sylwadau a'i gymeradwyo.**

**Cam Gweithredu: Byddai HLL yn cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol 2024/25 ar ôl derbyn adborth oddi wrth yr aelodau.**

| **43.5** | **Digwyddiadau i rannu gwybodaeth am y Cynllun Llesiant – Calendr Digwyddiadau y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus** |
|---|---|

Roedd y Tîm Partneriaethau wedi creu calendr ar-lein lle byddai modd nodi pob digwyddiad gwybodaeth a fyddai'n cael ei gynnal. Roedd y calendr yn un clir a chryno a byddai'n rhoi manylion y digwyddiadau sydd wedi'u cynnal a'r digwyddiadau fyddai'n cael eu cynnal yn y dyfodol. Roedd y partneriaid yn cael eu hannog i ychwanegu manylion at y dyddiadur ac ystyried cyfleoedd i gefnogi drwy fod yn bresennol mewn digwyddiadau yn y dyfodol. Byddai hyn yn awr yn cael ei ychwanegu at wefan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a byddai'n cael ei ddiweddaru. Byddai'r digwyddiad nesaf yn cael ei gynnal yn Aber-porth. Pwysleisiodd TB pa mor bwysig oedd gweld y partneriaid yn cymryd rhan yn y digwyddiadau hyn er mwyn gwella ymhellach ar y gwaith ymgysylltu â chymunedau. Roedd y Tîm Partneriaethau yn awr yn bwriadu creu pecynnau ar gyfer digwyddiadau y byddai modd eu rhannu â phartneriaid y Bwrdd a fyddai'n mynd i'r digwyddiadau hyn, gan sicrhau bod y negeseuon a'r deunyddiau yn gyson.

**Cam Gweithredu: Byddai'r partneriaid yn parhau i rannu gwybodaeth am ddigwyddiadau gwybodaeth yn y dyfodol a byddent yn ychwanegu manylion at y calendr ar-lein ac yn darparu cymorth drwy fynd i ddigwyddiadau yn y dyfodol.**

**Cam Gweithredu: Byddai'r Tîm Partneriaethau yn paratoi pecyn generig ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y byddai modd i'r aelodau ei ddefnyddio mewn digwyddiadau gwybodaeth yn y dyfodol.**

| **43.6** | **Claire Bryant, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu – Y Cynllun Heddlu a Throseddu** |
|---|---|

Esboniodd Claire Bryant (CB) fod y Cynllun Heddlu a Throseddu wedi'i ddatblygu yn unol â'r gofynion statudol yn y Deyrnas Unedig a Chymru a'i fod yn canolbwyntio'n benodol ar alwadau ac anghenion lleol. Ymgynghorwyd yn helaeth ag amrywiol rhanddeiliaid a chafwyd adborth cadarnhaol gan yr archwilwyr. Y nod yn gyffredinol oedd gwella ymddiriedaeth a hyder mewn plismona lleol, gan sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei weld fel un teg, cynhwysol a chynrychioliadol. Roedd y blaenoriaethau fel a ganlyn:

1. **Cefnogi Dioddefwyr**:
    - Pwyslais ar gyfiawnder gweithdrefnol, cyfranogiad dioddefwyr, a diogelu.
    - Canolbwyntio ar sicrhau nad yw trais yn erbyn menywod a merched yn cael ei oddef o gwbl.
    - Gwrando ar ddioddefwyr a goroeswyr a dysgu oddi wrthynt.
2. **Cefnogi Cymunedau Diogel**:
    - Gwydnwch o ran troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.
    - Gwasanaethau gweladwy a hygyrch yn yr ardaloedd gwledig a threfol.
    - Datrys problemau, diogelwch ar y ffyrdd, tarfu ar droseddu trefnedig difrifol, trin a dargyfeirio cyffuriau.
    - Atal achosion o ecsbloetio ac amddiffyn gweithwyr manwerthu.
    - Plismona sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac ymateb i fygythiadau cenedlaethol a lleol.
3. **Cefnogi System Gyfiawnder Mwy Effeithiol**:
    - Canolbwyntio ar ymddiriedaeth a hyder ac ar ganlyniadau cyflym a phriodol.
    - Pwyslais ar ymyrraeth i atal aildroseddu.
    - Gwella dulliau adferol a chyfrannu at Gymru sy'n Ystyriol o Drawma.
    - Mynd i'r afael ag anghenion menywod yn y system gyfiawnder.

Roedd fframwaith perfformiad trylwyr yn cael ei ddatblygu er mwyn medru adrodd ar y cynnydd a wneir o ran y cynllun. Adroddir yn chwarterol drwy'r Bwrdd Plismona Chwarterol a'r bwriad yw sicrhau bod y cynllun ar gael i'r cyhoedd. Canolbwyntir ar ddata craidd a byddai'r gwaith hefyd yn cynnwys cymharu'r llu â lluoedd eraill gan ddadansoddi'r cynnydd a wneir dros y flwyddyn. Cynhaliwyd gweithdai yn ystod y digwyddiad lansio a oedd yn canolbwyntio ar feysydd megis plant, pobl ifanc, diogelwch ar y ffyrdd, troseddau gwledig a thrais yn erbyn menywod. Yr amcan oedd nodi unrhyw gysylltiadau rhwng y materion hyn, gwella cydweithio a chanfod atebion i unrhyw rwystrau a oedd yn bodoli. Roedd proses newydd y Pwyllgor Dethol bellach wedi'i chyflwyno yn lle'r gweithgareddau craffu trylwyr blaenorol. Yn y lle cyntaf, byddai hyn yn canolbwyntio ar fesurau ymyrraeth ac atal yng nghyswllt pobl ifanc rhwng 18 a 25 oed. Byddai adolygiadau yn y dyfodol yn canolbwyntio ar ddiogelwch ar y ffyrdd a throseddau gwledig.

Rhannodd CB ei manylion cyswllt rhag ofn y byddai gan rywun ragor o gwestiynau. Mae'r ddolen i'r Cynllun Heddlu a Throseddu ar gael yma: https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/y-comisiynydd/cynllun-heddlu-a-throseddu/

Gofynnwyd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ystyried sut y gallem gydweithio i ddatblygu'r blaenoriaethau a oedd wedi'u nodi yn y cynllun hwn. Dywedodd Gavin Bown (GB) fod yna feysydd penodol y gallai partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gynorthwyo â nhw a soniodd am bwysigrwydd yr heriau gwledig. Gwnaeth yr Uwcharolygydd Steve Davies (SD) gydnabod y sylw diweddar ar y cyfryngau am y cynnydd mewn achosion o fwrgleriaeth yng Ngheredigion. Er efallai nad oedd yr adroddiadau hyn wedi bod yn hollol gytbwys, roedd yr heddlu wedi arestio nifer o droseddwyr teithiol yn y misoedd diwethaf ac roedd hyn wedi arwain at bobl yn cael eu cyhuddo ac ymddangos o flaen y llys. Tynnodd sylw hefyd at yr heriau a oedd yn bodoli oherwydd natur wledig y sir, a oedd yn gwneud pethau'n hynod o anodd i'r heddlu. Er gwaethaf yr heriau hyn, roedd yr Heddlu yn dal i ganolbwyntio ar fwrgleriaeth a mathau eraill o droseddau. Pwysleisiodd SD pa mor bwysig oedd cynnal partneriaethau a sicrhau perthynas dda rhwng yr heddlu ac asiantaethau eraill. Soniodd am ymdrechion tîm cyfathrebu corfforaethol Heddlu Dyfed-Powys i ymgysylltu â grwpiau megis ffermwyr ifanc fel y gallai aelodau'r tîm plismona yn y gymdogaeth sicrhau bod ganddynt fwy o lygaid ar lawr gwlad. Bu i'r Cadeirydd gytuno gan awgrymu y dylid cael trafodaeth am gydgynhyrchu yn un o gyfarfodydd y dyfodol yn ogystal â sgyrsiau am fesurau atal, ynghyd ag asesiad o swm yr arian a ddyrennir i weithgareddau ataliol.

**Cam Gweithredu: Byddai aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystyried blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu a byddent yn cysylltu â Claire Bryant yn uniongyrchol pe byddent yn dymuno cael rhagor o wybodaeth.**

| **42.7** | **Sesiwn Sbotolau – Ymgysylltu** |
|---|---|

i. **Ymgysylltu â Phobl Ifanc**

Cyflwynwyd yr eitem hon gan Gethin Jones (GJ). Roedd y gwasanaeth ieuenctid yn ymwneud â bron hanner pobl ifanc Ceredigion bob blwyddyn ac roedd tua 400 o bobl ifanc yn cymryd rhan mewn amrywiol weithgareddau bob wythnos. Roedd cynllun y gwasanaeth yn seiliedig ar bum colofn: addysg, grymuso, cyfranogiad, cynhwysiant, a llesiant. Y colofnau hyn oedd wrth wraidd y gweithgareddau a'r gwaith ymgysylltu â'r bobl ifanc. Roedd y meysydd prosiect allweddol yn cynnwys y canlynol: Pontio'r Cenedlaethau (sy'n canolbwyntio ar gynnwys y gymuned a chefnogi achosion lleol); Cynllun Bwrsariaeth (sy'n darparu cyllid i bobl ifanc i fynd ar drywydd hyfforddiant, mentrau, neu ddigwyddiadau) a phrosiect graffiti (sy'n mynd i'r afael â phryderon cymunedau drwy gynlluniau graffiti cadarnhaol). Roedd y Cyngor Ieuenctid yn dathlu ei ben-blwydd yn 10 oed ac roedd yn cynnal pleidlais "Rhoi dy Farn", a oedd yn caniatáu i bobl ifanc bleidleisio ar bynciau allweddol. Gwnaeth mwy na 2,000 o bobl ifanc gymryd rhan eleni. Byddai'r Wythnos Gwaith Ieuenctid (a fyddai'n dechrau ar 23 Mehefin) a'r Gynhadledd Gwaith Ieuenctid (24 Mehefin) yn cael eu cynnal yn fuan a'u bwriad oedd dathlu pobl ifanc ac ymgysylltu â nhw. Roedd y gwasanaeth yn cynnal arolygon boddhad blynyddol ac roedd yn defnyddio codau QR i gasglu adborth oddi wrth bobl ifanc am amrywiol brosiectau a gweithgareddau.

**Cam Gweithredu: Byddai GJ yn rhannu dadansoddiad o arolygon boddhad y bobl ifanc a byddai'n darparu rhagor o fanylion am y Gynhadledd Gwaith Ieuenctid a fyddai'n cael ei chynnal ar 24 Mehefin.**

ii. **Ceredigion Oed-gyfeillgar**

Rhoddwyd y cyflwyniad hwn gan Melanie Walters (MW) ac Elinor Ashworth-Chandler (EAC). Daeth Ceredigion Oed-gyfeillgar yn rhan o Rwydwaith Oed-gyfeillgar Sefydliad Iechyd y Byd ym mis Hydref y llynedd. Roedd y fenter hon yn canolbwyntio ar wyth parth ar gyfer creu cymunedau sy'n heneiddio'n llwyddiannus. Roedd y prif heriau yn cynnwys natur wledig y sir, yr amrywiaeth rhwng y pum prif dref a'r ffaith nad oedd yna brif ganolfan ar gyfer gweithgareddau oed-gyfeillgar. Roedd y tîm yn ymweld â grwpiau cymunedol ac yn trefnu digwyddiadau oed-gyfeillgar. Hefyd, roedd y tîm yn cydweithio â phartneriaid i hybu cynlluniau oed-gyfeillgar. Roeddent wedi sefydlu fforymau a pharatoi cylchlythyron i sicrhau bod y gymuned yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf. Amcan y fenter hon oedd recriwtio cynrychiolwyr o 47 o gymunedau unigol ledled Ceredigion i sicrhau bod amrywiol leisiau yn cael eu clywed. Ymhlith y prif themâu a nodwyd oedd trafnidiaeth, allgáu digidol, gofal dementia, gofal lliniarol, yr angen i dderbyn gwybodaeth gyffredinol, cydlynu gofal iechyd, ac ynysu cymdeithasol.

**Cam Gweithredu: Byddai MW ac EAC yn gweithio ag aelodau Is-grwpiau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn recriwtio cynrychiolwyr o'r cymunedau a byddent yn rhoi diweddariad i'r Bwrdd yn y dyfodol ynglŷn â'r Strategaeth Oed-gyfeillgar.**

iii. **Cysylltu Cymunedau**

Cyflwynwyd yr eitem hon gan Cathryn Morgan (CM) a Nic Pryor (NP). Roedd y prosiect hwn yn canolbwyntio ar wella'r broses o ymgysylltu â grwpiau cymunedol trwy ymweld â mannau croeso cynnes, caffis cymunedol, a banciau bwyd.  Oherwydd natur wledig Ceredigion, bu'n anodd cyrraedd pob ardal. Nodwyd bod gan y pum prif dref anghenion a safbwyntiau gwahanol. Yn wahanol i fentrau oed-gyfeillgar mewn dinasoedd, nid oedd gan Geredigion ganolfan neu hwb canolog ar gyfer cynnal gweithgareddau a darparu gwybodaeth.

Roedd y materion a nodwyd yn cynnwys y canlynol: yr angen i ymgysylltu â'r gymuned trwy Grwpiau Cymunedol yn hytrach na disgwyl i bobl ddod i ddigwyddiadau; cynnal digwyddiadau sy'n oed-gyfeillgar a chymryd rhan mewn digwyddiadau sy'n cael eu cynnal gan bartneriaid; sefydlu fforymau mewn gwahanol leoliadau i gasglu lleisiau o wahanol gymunedau; paratoi cylchlythyron a diweddaru tudalen benodol ar y we sy'n darparu gwybodaeth oed-gyfeillgar; creu a dosbarthu cyfeiriadur oed-gyfeillgar.

Roedd y themâu sylfaenol fel a ganlyn: trafnidiaeth; materion yn ymwneud â hygyrchedd a chydlynu apwyntiadau; cynhwysiant digidol; mynediad at dechnoleg a'r rhyngrwyd; gofal dementia; pryderon am ddiagnosis a chefnogaeth; gofal lliniarol; yr angen am well gwybodaeth a chydlynu; gofal iechyd; yr heriau o ran teithio i apwyntiadau a chydlynu gwasanaethau; ynysu cymdeithasol; yr angen am well gwybodaeth a chefnogaeth i frwydro yn erbyn unigrwydd. Soniodd NP am ei hymweliadau â'r 30 o Fannau Croeso Cynnes a'r holl fanciau bwyd yng Ngheredigion. Roedd y mannau hyn wedi dod yn ganolfannau cymunedol hanfodol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, lle'r oedd pobl yn ymgynnull i gymdeithasu a chael cefnogaeth. Bu gostyngiad yn nifer y bobl a oedd yn mynd i rai mannau croeso cynnes oherwydd problemau trafnidiaeth. Fodd bynnag, yn ddiweddar, roeddent wedi hwyluso'r gwaith o greu grwpiau ychwanegol megis grwpiau profedigaeth a grwpiau cerdded. Roedd y mannau hyn yn cael eu defnyddio gan wasanaethau eraill, megis fferyllwyr a oedd yn dosbarthu presgripsiynau ar ddiwedd y sesiynau cymunedol. Trefnwyd digwyddiadau megis y sesiynau "Gadewch i ni Siarad" er mwyn ymgysylltu â'r gymuned ond cymysg fu'r llwyddiant. Yn sgil hynny, penderfynwyd newid pethau a mynd i ddigwyddiadau a oedd eisoes wedi'u trefnu er mwyn ceisio gwella'r gwaith ymgysylltu. Roedd y Fforwm Anabledd, yr oedd CM yn ei gydlynu, yn cyfarfod bob chwarter ond roedd cyfarfodydd ychwanegol yn cael eu cynnal yn ôl y galw i drafod ymgynghoriadau penodol. Roedd gan y grŵp tua 7-9 o aelodau gweithredol a oedd yn cynrychioli grŵp mwy o faint. Roedd y prif faterion yr oeddent yn eu trafod yn cynnwys hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus, oedi wrth brosesu ceisiadau am fathodynnau glas, gormod o wrthrychau ar balmentydd, heriau iechyd a gofal cymdeithasol, rhwystrau o ran cael gwaith, a'r angen am seilwaith gwefru ar gyfer Cerbydau Trydan.

Roedd y wybodaeth yn cael ei chasglu drwy gyfrwng cwynion, sylwadau o ganmoliaeth a chanfyddiadau ymgynghoriadau ond byddai sicrhau system well ar gyfer rhannu'r wybodaeth hon o gymorth yn y dyfodol wrth gyfrannu at waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

**Cam Gweithredu: Byddai CM yn ystyried defnyddio llwyfan Dovetail ar gyfer dadansoddi'r wybodaeth a darparu adborth am themâu a thueddiadau https://dovetail.com/**

Dywedodd HLL y dylai'r cyhoedd fod yn fwy ymwybodol o'r gwaith ymgysylltu cadarnhaol yr oedd gwahanol asiantaethau yn ei wneud. Roedd angen ystyried ffyrdd gwahanol o ymgysylltu a ffyrdd o fynd ati i gasglu'r wybodaeth yn well.

| 43.8 | **Diweddariadau Grwpiau Cyflawni'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:** |
|---|---|

**i. Grŵp Cyflawni Llesiant yn Llanbedr Pont Steffan** *(Greg Jones, Cyngor Sir Ceredigion)*
Dywedodd Greg Jones (GrJ) fod manylion cyfarfod Grŵp Cyflawni Llanbedr Pont Steffan a gynhaliwyd ar 30 Ebrill wedi'u cynnwys gyda phapurau'r cyfarfod. Cafodd y grŵp drafodaethau diddorol ar blismona yn y gymdogaeth a oedd yn cyd-fynd â'r pynciau yn y Cynllun Heddlu a Throseddu. Roedd disgwyl y byddai diweddariadau gan y tîm plismona yn y gymdogaeth yn parhau yn y dyfodol. Roedd y grŵp hefyd yn ystyried ei gynllun gwaith at y dyfodol, gan ganolbwyntio o bosibl ar ymgysylltu a bod yn amlwg yn y gymuned.

Ar hyn o bryd, roedd yr Uwcharolygydd Steve Davies (SD) yn ceisio cael cadarnhad a fyddai'r cyllid ar gyfer mynd i'r afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn Llanbedr Pont Steffan yn parhau fel ag yr oedd. Dywedodd y byddai'n gwneud ymholiadau pellach.

**ii. Llesiant yn Aberteifi** *(Hazel Lloyd Lubran, CAVO)*
Roedd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mai yn rhan o bapurau'r cyfarfod.

Dywedodd HLL fod is-grwpiau Aberteifi a Llanbedr Pont Steffan yn ystyried eu cynlluniau ymgysylltu ar gyfer y dyfodol ar hyn o bryd, ac y gallai hyn gynnwys mabwysiadu'r dull gweithredu "Gadewch i ni siarad" (fel yr amlinellwyd yn y cyflwyniad blaenorol).

**iii. Grŵp Cyflawni Hinsawdd a Natur** *(Tim Bray, Cyngor Sir Ceredigion)*
Soniodd TB am y cydweithio a fu rhwng Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a Sir Gaerfyrddin ar yr agenda hinsawdd a natur, gan nodi eu bod wedi canolbwyntio ar gysoni strwythurau a chonfensiynau enwi. Y dasg gychwynnol oedd cysoni'r strwythurau a'r confensiynau enwi a ddefnyddir gan y ddau Fwrdd er mwyn sicrhau cysondeb. Roedd angen penodi cadeirydd o Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer y Grŵp Natur a Hinsawdd er mwyn arwain yr ymdrechion ar ochr Ceredigion. Rhagwelwyd y byddai angen cyflawni darn sylweddol o waith a gofyn i gynrychiolwyr o wahanol feysydd asesu'r risgiau a chyfrannu at y prosiect. Awgrymodd HLL y gellid cynnal gweithdy penodol ar gyfer Ceredigion er mwyn blaenoriaethu rhai meysydd yn yr Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd cyn y gweithdy rhanbarthol llawn yn yr hydref.

**Cam Gweithredu: Tra bo Cadeirydd yn cael ei benodi i'r Grŵp Cyflawni Hinsawdd a Natur, byddai'r Tîm Partneriaethau yn trefnu gweithdy yng Ngheredigion fel y gellid cyfrannu syniadau at y sesiwn ranbarthol ynghylch yr Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd gyda Sir Gaerfyrddin yn yr hydref.**

| 43.9 | **Diweddariad y Grŵp Tlodi – Siarter Gwaith Teg** |
|---|---|

Dywedodd Cathryn Morgan (CM) fod y grŵp hwn a sefydlwyd i ystyried y Siarter Gwaith Teg bellach wedi cyfarfod dair gwaith er mwyn nodi'r arferion cyfredol ac awgrymu cyfleoedd ar gyfer gwella. Cyflwynwyd adroddiad interim i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion ym mis Rhagfyr 2024, a oedd yn amlinellu 15 o argymhellion. Ymhlith y rhain yr oedd cynnig i ddatblygu a chyflwyno Siarter Gwaith Teg drafft fel y gallai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ei chymeradwyo a'i rhoi ar waith. Cymeradwyodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yr argymhellion ym mis Rhagfyr.

Roedd y Siarter Gwaith Teg bellach yn cael ei chyflwyno gerbron aelodau'r Bwrdd er mwyn iddynt roi eu sêl bendith ffurfiol iddo. Byddai hyn yn dangos ymrwymiad ar y cyd y Bwrdd i hyrwyddo

egwyddorion Gwaith Teg ledled Ceredigion.

Roedd Siarter Gwaith Teg Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion wedi nodi'n glir yr addewidion canlynol:

Byddwn ni'n:
• Gwneud mwy i estyn allan at leisiau sydd wedi'u tangynrychioli yn ein gweithluoedd.
• Symleiddio ein polisïau o fewn y gweithlu ac amlygu gwybodaeth allweddol fel eu bod yn hygyrch i bobl o bob gallu.
• Cefnogi ein gilydd i symud ymlaen fel cyflogwyr Hyderus o ran Anabledd.
• Archwilio cyfleoedd i gynnig mwy o leoliadau gwaith i bobl yng Ngheredigion sydd yn ddi-waith neu nad oes ganddynt lawer o brofiad gwaith.
• Archwilio a hyrwyddo gwahanol ddulliau o weithio hyblyg fel bod y rolau rydyn ni'n eu hysbysebu yng Ngheredigion mor gynhwysol a hygyrch â phosibl.
• Archwilio cyfleoedd ar gyfer mwy o gydweithio ar gynlluniau prentisiaethau yng Ngheredigion rhwng sefydliadau BGC ac o fewn sefydliadau'r BGC.
• Archwilio'r potensial o wneud cynlluniau prentisiaethau presennol yng Ngheredigion yn fwy hygyrch, i gyflogwyr ac i ddarpar brentisiaid.
• Archwilio'r potensial i sefydlu trefniadau i godi ymwybyddiaeth o ragolygon gyrfa a chyfleoedd gwaith a datblygu a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer secondiadau a chyfnewid gwaith gan rannu arferion gorau.
• Sicrhau bod egwyddorion Gwaith Teg yn cael eu hystyried fel rhan o'n prosesau tendro a monitro contractau.
• Ystyried arferion amrywiaeth a chynhwysiant y darparwyr a chyflenwyr yr ydym yn eu caffael, yn gymesur â maint a math y contract.
• Nodi ffyrdd o wella gallu contractwyr i ddarparu gwerth cymdeithasol ar gontractau mwy.
• Parhau i fynychu rhwydweithiau lleol a chenedlaethol i rannu arferion caffael da.
• Sicrhau bod holl grwpiau cyflawni Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion yn datblygu meddylfryd Gwaith Teg ac yn cynnwys hyn yn eu cylch gorchwyl a'i fod wrth wraidd polisïau a chynlluniau.

Rhagwelwyd y byddai'r ymrwymiadau a amlinellir yn y Siarter yn cael eu cyflawni'n llawn erbyn Mawrth 2028. Byddai hyn yn cyd-fynd â diwedd y Cynllun Llesiant cyfredol. Er mwyn sicrhau atebolrwydd a thryloywder, argymhellir bod y gwaith o fonitro a gwerthuso'r cynnydd a wneir yn cael ei gynnwys yn Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion.

**Cytunodd aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i'r Siarter Gwaith Teg mewn egwyddor.**
**Cam Gweithredu: Byddai pob aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cyflwyno'r Siarter Gwaith Teg i'w sefydliadau fel y gallent ei chymeradwyo'n ffurfiol ac ymrwymo iddi. Gofynnir i bob aelod am ddiweddariad ynghylch hyn yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.**

**Cam Gweithredu: Byddai ymrwymo i'r Siarter Gwaith Teg yn cael ei gynnwys ar agenda cyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.**

| | |
|---|---|
| **43.10** | **Diweddariad y Cadeirydd** |
| | **i. Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol**<br>Dywedodd HLL fod cynhadledd wedi'i chynnal yn Nhreforest yn ddiweddar a bod nifer o'r trafodaethau yn y gynhadledd yn ddiddorol. Roedd Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'i ddosbarthu ac roedd nifer o awgrymiadau diddorol ynddo ynghylch y sefyllfa sydd ohoni 10 mlynedd ers cyflwyno |

| | |
|---|---|
| | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Er bod gwaith da yn cael ei wneud, roedd y Comisiynydd yn teimlo fod yna lawer yn fwy y gallai ac y dylai gael ei wneud. Roedd 50 o argymhellion yn yr adroddiad a oedd yn ymwneud â materion megis ymgysylltu, ymyrraeth gynnar, a'r angen am wario canran o gyllid ar fesurau atal. Argymhelliad diddorol arall oedd y dylai pob cymuned gael mynediad at uned / caffi atgyweirio fel y gallai'r cyhoedd fynd yno. Roedd is-grŵp Llanbedr Pont Steffan eisoes wedi trafod hyn ac roedd y mater hefyd wedi'i godi yng ngrŵp Aberteifi .<br><br>**Cam Gweithredu: Byddai TB a HLL yn ystyried sut y gallai argymhellion Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol gael eu cynnwys yng nghyfarfodydd y dyfodol**<br><br>**ii. Y Gynhadledd Gyd-gynhyrchu Genedlaethol**<br><br>Oherwydd prinder amser, ni thrafodwyd y mater hwn. |
| **43.11** | **Adborth Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion** |
| Rhoddodd y Cynghorydd Wyn Evans ddiweddariad am y drafodaeth a gafwyd yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu. Dywedodd fod Aelodau'r Pwyllgor wedi derbyn cofnodion drafft cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 3/3/2025. Yn dilyn trafodaeth, gwnaeth y Pwyllgor dderbyn y cofnodion. Diolchodd y Cynghorydd Wyn Evans i HLL am gyflwyno'r adroddiad a'r wybodaeth, ac i DD a TB am ddod i'r cyfarfod i ateb unrhyw gwestiynau a oedd yn codi o'r adroddiad. Gwnaeth y Pwyllgor gydnabod pwysigrwydd gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r angen i barhau i gydweithio a chraffu er mwyn sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu mewn modd effeithiol. | |
| **42.12** | **Unrhyw Fater Arall** |
| Nid oedd materion eraill i'w trafod. Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu hamser a'u cyfraniadau. Daeth y cyfarfod i ben am 16:11. | |
| **42.13** | **Dyddiad y cyfarfod nesaf:** Rhwng 14:00 a 16:00 ar 15 Medi 2025 wyneb yn wyneb. |

| **Cofnod o'r Camau Gweithredu sy'n parhau** | | |
|---|---|---|
| **11** | **Tîm Cymorth i rannu adroddiadau a chanfyddiadau gweithdai Cronfa Ffyniant a Rennir; Hazel Lloyd Lubran i ddarparu diweddariadau pellach yn dilyn y cyfarfod ar 3 Mehefin 2025.** | **Partnerships Team / Hazel Lloyd Lubran** |
| **12.** | **Byddai diweddariad am drafodaethau rhanbarthol yn cael ei anfon at yr aelodau ar ôl i'r ail gyfarfod gael ei aildrefnu.** | **Timothy Bray** |
| **13.** | **Byddai'r Tîm Partneriaethau yn paratoi drafft terfynol yr Adroddiad Blynyddol a byddai'n ei rannu â'r aelodau fel y gallent roi sylwadau a'i gymeradwyo.** | **Y Tîm Partneriaethau** |
| **14.** | **Byddai HLL yn cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol 2024/25 ar ôl derbyn adborth oddi wrth yr aelodau.** | **Hazel Lloyd Lubran** |
| **15.** | **Byddai'r partneriaid yn parhau i rannu gwybodaeth am ddigwyddiadau gwybodaeth yn y dyfodol a byddent yn ychwanegu manylion at y calendr ar-lein ac yn darparu cymorth drwy fynd i ddigwyddiadau yn y dyfodol.** | **Pawb** |
| **16.** | **Byddai'r Tîm Partneriaethau yn paratoi pecyn generig ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y byddai modd i'r aelodau ei ddefnyddio mewn digwyddiadau gwybodaeth yn y dyfodol.** | **Y Tîm Partneriaethau** |

| | | |
|---|---|---|
| **17.** | Byddai aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystyried blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu a byddent yn cysylltu â Claire Bryant yn uniongyrchol pe byddent yn dymuno cael rhagor o wybodaeth. | **Pawb** |
| **18.** | **Byddai GJ yn rhannu dadansoddiad o arolygon boddhad y bobl ifanc a byddai'n darparu rhagor o fanylion am y Gynhadledd Gwaith Ieuenctid a fyddai'n cael ei chynnal ar 24 Mehefin.** | **Gethin Jones / Y Tîm Partneriaethau** |
| **19.** | **Byddai MW ac EAC yn gweithio ag aelodau Is-grwpiau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn recriwtio cynrychiolwyr o'r cymunedau a byddent yn rhoi diweddariad i'r Bwrdd yn y dyfodol ynglŷn â'r Strategaeth Oed-gyfeillgar.** | **Melanie Walters ac Elinor Ashworth Chandler** |
| **20.** | **Byddai CM yn ystyried defnyddio llwyfan Dovetail ar gyfer dadansoddi'r wybodaeth a darparu adborth am themâu a thueddiadau [https://dovetail.com/](https://dovetail.com/)** | **Cathryn Morgan** |
| **21.** | **Tra bo Cadeirydd yn cael ei benodi i'r Grŵp Cyflawni Hinsawdd a Natur, byddai'r Tîm Partneriaethau yn trefnu gweithdy yng Ngheredigion fel y gellid cefnogi'r sesiwn ranbarthol ynghylch yr Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd gyda Sir Gaerfyrddin yn yr hydref.** | **Y Tîm Partneriaethau** |
| **22.** | **Byddai pob aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cyflwyno'r Siarter Gwaith Teg i'w sefydliadau fel y gallent ei chymeradwyo'n ffurfiol ac ymrwymo iddi. Gofynnir i bob aelod am ddiweddariad ynghylch hyn yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.** | **Pawb** |
| **23.** | **Byddai TB a HLL yn ystyried sut y gallai argymhellion Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol gael eu cynnwys yng nghyfarfodydd y dyfodol** | **Timothy Bray a Hazel Lloyd Lubran** |